Y Comisiwn Etholiadol

Adroddiad chwarterol o roddion a wneir i blaid wleidyddol: datganiad adroddiad o 'ddim'

Nodiadau esboniadol ar gwblhau'r ffurflen RP10QN

Cyn llenwi'r ffurflen hon, dylai pob plaid ddarllen ein canllaw rhoddion a benthyciadau er mwyn cael arweiniad cynhwysfawr ar y rheolaethau ar roddion sy'n gymwys i bleidiau gwleidyddol.

Mae'n ofynnol i bleidiau gwleidyddol cofrestredig gyflwyno adroddiadau rhoddion a benthyciadau i'r Comisiwn Etholiadol ar ddiwedd pob chwarter calendr.

O dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA), defnyddir 'buddiant' i gyfeirio at roddion a benthyciadau sydd, gyda'i gilydd, dros £500. Mae'n rhaid i bleidiau gyfansymio unrhyw roddion a benthyciadau a dderbynnir neu a ymgymerir gan yr un ffynhonnell mewn flwyddyn galendr ac adrodd am unrhyw fuddiannau sy'n bodloni'r trothwy adrodd.

Dylai pleidiau gyflwyno datganiad adroddiad o 'ddim' os nad ydynt wedi cael yr un o'r canlynol yn ystod y chwarter calendr perthnasol:

- unrhyw roddion (gan gynnwys rhoddion wedi'u cyfansymio) o fwy na £11,180 a dderbynnir gan y blaid ganolog
- unrhyw roddion (gan gynnwys rhoddion wedi'u cyfansymio) o fwy na £2,230 a dderbynnir gan uned gyfrifyddu plaid
- unrhyw roddion (gan gynnwys rhoddion wedi'u cyfansymio) o fwy na £2,230 a dderbynnir gan blaid o ffynhonnell; mae'r blaid ganolog eisoes wedi derbyn buddiant o fwy na £11,180 yn yr un flwyddyn galendr
- unrhyw roddion nas caniateir neu roddion nad oes modd eu hadnabod a dderbynnir gan unrhyw adran o blaid.

Yn ogystal, yn Chwarter 4, mae'n ofynnol ar bleidiau i gynnwys manylion unrhyw fuddiannau cyfansymiol o fwy na £11,180 a wnaed i adrannau gwahanol o'r blaid (a elwir hefyd yn 'rhoddion adran 62(12)' a 'benthyciadau 'adran 71M(12)'). **Dim ond yn yr adroddiadau rhoddion a benthyciadau ar gyfer Chwarter 4 y mae angen adrodd am y buddiannau hyn.**

Rhaid cyflwyno'r adroddiad cyn pen 30 diwrnod o ddiwedd y chwarter calendr (gweler isod).

Mae pob nodyn yn cyfateb i adran wedi'i rhifo ar ffurflen RP10QN.

1 Manylion plaid gofrestredig

Nodwch enw cofrestredig y blaid, a chyfeirnod y blaid.

At hynny, nodwch y cyfnod adrodd chwarterol perthnasol a'r flwyddyn, e.e.

- Chwarter 1 (Ionawr–Mawrth)
- Chwarter 2 (Ebrill-Mehefin)
- Chwarter 3 (Gorffennaf-Medi)
- Chwarter 4 (Hydref-Rhagfyr).

2 Datganiad adroddiad o 'ddim'

3 Datganiad a llofnod

Rhaid i'r datganiad hwn gael ei ddiwygio fel y bo'n berthnasol a'i lofnodi gan yr unigolyn a gofrestrwyd yn drysorydd y blaid.

Pwysig: Mae'n drosedd i drysorydd wneud datganiad anwir, a hynny'n fwriadol neu'n ddi-hid, neu fethu â chyflwyno adroddiad cyn pen 30 diwrnod o ddiwedd cyfnod adrodd.

Dylid dychwelyd ffurflen RP10QN i:

Party and Election Finance
The Electoral Commission
3 Bunhill Row
London EC1Y 8YZ

Ffôn: 0333 103 1928
Ffacs: 020 7271 0505
E-bost: pef@electoralcommission.org.uk
Y We: comisiwnetholiadol.org.uk